Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

## Cyflwyno'r Fframwaith ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy



# Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

## Cyflwyno'r Fframwaith ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r Fframwaith ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy gafodd ei sefydlu yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

Mae'n esbonio pam mae angen y ddeddf hon arnom a sut y byddwn yn ei rhoi ar waith.

Nid yw'r ddogfen hon yn esbonio nac yn trafod y pwerau a'r dyletswyddau eraill yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) er enghraifft trapiau glud a maglau, tenantiaethau a choedwigaeth. I weld rhagor o wybodaeth amdanyn nhw, darllenwch y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf.

## Beth yw Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023?

Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn rhoi pwerau i ddiwygio deddfwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd (UE) ac yn sefydlu 'Rheoli Tir yn Gynaliadwy' fel y fframwaith ar gyfer cefnogi a rheoleiddio amaethyddiaeth yn y dyfodol yng Nghymru.

Trwy fabwysiadu Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel fframwaith, bydd amaethyddiaeth yn cael ei chefnogi a'i rheoleiddio yng Nghymru mewn ffordd sy'n gyson â goblygiadau Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan helpu i gyfrannu at y nodau llesiant yn adran 4 o'r  Ddeddf honno, a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae Rheoli Tir yn Gynaliadwy, neu'r 'SLM' fel y'i gelwir hefyd, yn ymgorffori cyfraniad amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol ffermwyr yng Nghymru. Mae'n seiliedig ar y cysyniad, sy'n cael ei gydnabod trwy'r byd, y dylai adnoddau, gan gynnwys pridd, dŵr a chnydau, gael eu defnyddio i gynhyrchu nwyddau sy'n diwallu anghenion cyfnewidiol pobl mewn ffordd sy'n cadw'r ddysgl yn wastad rhwng anghenion y genhedlaeth heddiw â'n hymrwymiadau i genedlaethau fory.

Cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ac ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd yw rhai yn unig o heriau mwyaf heddiw. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y dylai cymorth i ffermwyr yn y dyfodol helpu ffermwyr sy'n cymryd camau i ddelio â'r heriau hyn.

Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru reoleiddio a rhoi cymorth sy'n addas ar gyfer wynebu heriau a chyfleoedd unigryw ein diwydiant ffermio yma yng Nghymru.

Trwy gefnogi ffermwyr i gyfrannu at iechyd a lles ein gwlad rydym yn ffyddiog ein bod yn helpu i greu diwydiant amaeth cynaliadwy a chryf yng Nghymru er budd cenedlaethau'r dyfodol.



## Dyma Ddeddf Amaeth gyntaf Cymru...

Mae'n pennu pedwar **amcan i Reoli Tir yn Gynaliadwy** a fydd yn sail ar gyfer cefnogi a rheoleiddio amaethyddiaeth yng Nghymru.

Mae'n rhoi **dyletswydd** ar Weinidogion Cymru i weithredu yn y ffordd y maen nhw'n ystyried fydd yn cyfrannu orau i gyflawni amcanion **Rheoli Tir yn Gynaliadwy**.

Mae'n gofyn am bennu **dangosyddion a thargedau** i asesu beth sy'n cael ei wneud i gyflawni pob un o amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Mae'n diffinio'r **gweithgareddau amaethyddol ac ategol** y caiff Gweinidogion Cymru eu cefnogi.

Mae'n rhoi **Pŵer** i Weinidogion Cymru **roi cymorth** ar gyfer cynna gweithgareddau amaethyddol ac ategol yng Nghymru.

Mae'n pennu'r gofynion **monitro ac adrodd** fydd yn darparu tystiolaeth bod yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn cael eu cyflawni.

## Pam mae angen y ddeddf newydd hon?

Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau datganoledig ynghylch polisi amaeth a chymorth i ffermwyr. Yn sgil ymadael â'r UE, mae yma gyfle i Gymru greu fframwaith polisi amaethyddol sydd wedi'i wneud yng Nghymru er lles pobl Cymru.

Rhaid diogelu ein tir trwy gefnogi arferion ffermio cynaliadwy a sicrhau bod gennym sector ffermio cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf yn cynnig y trefniadau a'r pwerau sydd eu hangen i wneud hyn, gan helpu i sicrhau'r canlynol:

- Bod Cymru'n cadw at ei haddewidion amgylcheddol rhyngwladol.
- Bod ffermwyr yn cael cymorth i gynhyrchu bwyd a nwyddau eraill o ansawdd uchel yn gynaliadwy.
- Bod gweithredoedd a chanlyniadau i liniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo yn cael eu hannog.
- Afonydd, pridd ac ecosystemau sy'n wydn, amrywiol ac iach, lle gall bioamrywiaeth ffynnu.
- Bod rôl arbennig amaethyddiaeth i ddiogelu a chynnal ein diwylliant a'n hiaith yn cael ei hatgyfnerthu.
- Hyrwyddo cyfleoedd i fynd i gefn gwlad a'i fwynhau, heb wrthdaro ag anghenion y gymuned ffermio.




Trwy'r Fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu cefnogi'r diwydiant amaethyddol i gyfrannu at nifer o ymrwymiadau Llywodraeth Cymru gan gynnwys:

- Cadw ffermwyr ar y tir i gynhyrchu bwyd mewn ffordd gynaliadwy.
- Gweithgareddau amaethyddol fel rhan o Gymru Sero Net.
- Y nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Ymrwymiadau o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Cymraeg 2050.
- Ymrwymiadau'r Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid.
- Ymrwymiadau mewn cytundebau rhyngwladol fel Targed Bioamrywiaeth 30x30 a thargedau 7 a 10 Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kuming-Montreal.

## Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Mae Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn seiliedig ar y pedwar amcan sy’n dathlu cyfraniadau pennaf y diwydiant amaeth i Gymru. Mae’r amcanion yn ymdrin â chynhyrchu bwyd a nwyddau eraill yn gynaliadwy a mynd i’r afael â’r argyfyngau hinsawdd a natur gan gydnabod cyfraniad hanfodol ffermwyr at iechyd amgylcheddol a diwylliannol Cymru.




**Cynhyrchu Bwyd a Nwyddau eraill yn Gynaliadwy:** Ein nod yw helpu ffermwyr i ddefnyddio dulliau ffermio newydd a thraddodiadol i ofalu am ein tir i’r tymor hir ac ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol gan ddiwallu ein hanghenion ni heddiw. Rydym am leihau gwastraff, sicrhau a chynnal safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid a chreu cadwyn gyflenwi sy’n gofalu am bobl a’r tir gan ein helpu yr un pryd i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy.

**Lliniaru’r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo:** Rydym wedi ymrwymo i helpu ffermwyr i helpu’u hunain i liniaru’r newid yn yr hinsawdd ac i addasu iddo. Trwy eu hannog i ddefnyddio dulliau sy’n lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn storio mwy o garbon, gallwn sicrhau fod y diwydiant yn cyfrannu at sero net. Byddwn hefyd yn cefnogi’n ffermydd a’n cymunedau i ddygymod yn well ag effeithiau hinsawdd sy’n newid, fel gwres a llifogydd mawr.

**Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a’u manteision:** Byddwn yn cynnal a gwella’r amrywiaeth o blanhigion ac anifeiliaid. Byddwn yn cefnogi’r diwydiant amaeth i reoli’n hadnoddau naturiol yn ofalus, gan gynnwys pridd, dŵr, cnydau a chynefinoedd, gan wneud ein tirweddau’n gryf ac yn hyblyg.

**Gwarchod a gwella adnoddau cefn gwlad a diwylliannol, annog mynediad y cyhoedd iddyn nhw ac i ymwneud â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso’r defnydd ohoni:** Byddwn yn cefnogi camau fydd yn gwarchod ac yn gwella cefn gwlad a’i draddodiadau diwylliannol, gan gynnwys hyrwyddo a hwyluso’r Gymraeg. Byddwn yn gweithio hefyd i wneud ein mannau gwyrdd yn fwy hygyrch i bawb er mwyn i Gymru gyfan allu gwerthfawrogi’n tir a ffermio.

Nid oes hierarchaeth i’r amcanion. Bydd gofyn i Weinidogion Cymru, wrth gyflawni’r ddyletswydd Rheoli Tir yn Gynaliadwy, ystyried y pedwar amcan.

Y bwriad yw i amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy ategu ei gilydd ac ambell waith, bydd ambell weithred yn cyfrannu at un, fwy nag un neu bob un o’r amcanion, ond nid efallai i’r un graddau bob tro.

## Y Ddyletswydd i Reoli Tir yn Gynaliadwy

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i weithredu mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r ddyletswydd pan fydd angen gwneud hynny. Mae dyletswydd statudol yn golygu bod y gyfraith yn ei gorfodi i wneud. Dywed y Ddyletswydd Rheoli Tir yn Gynaliadwy:

> *Rhaid i Weinidogion Cymru arfer pob swyddogaeth y cyfeirir ati yn yr adran hon yn y modd y maent yn ystyried sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaeth honno'n briodol.*
>
> *(Adran 2: Dyletswydd Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r amcanion)*

Mae'r ddyletswydd i Reoli Tir yn Gynaliadwy yn gymwys i swyddogaethau penodol o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) (ond nid swyddogaethau sy'n ymwneud â'r Cynllun Taliad Sylfaenol), yn ogystal ag unrhyw Ddeddf arall sy'n caniatáu neu'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i reoleiddio neu ddarparu cymorth ar gyfer amaethyddiaeth, gweithgareddau ategol, neu weithgareddau eraill a wneir ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth.



## Amaethyddiaeth a Gweithgareddau Ategol

Sail y Ddeddf yw cysyniadau craidd 'Amaethyddiaeth' a 'Gweithgareddau Ategol' a'u diffiniadau. Mae'r diffiniadau'n adlewyrchu'r arferion ffermio sydd wedi esblygu'n fwy diweddar gan nodi'r ystod o arferion blaengar sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru yn ogystal ag edrych tua'r dyfodol ar y camau y gallai'r diwydiant eu cymryd wrth iddo addasu i'r heriau sydd o'n blaenau.

Mae'r diffiniadau'n ymwneud â'r pwerau a'r dyletswyddau o dan y Ddeddf, gan gynnwys y ddyletswydd Rheoli Tir yn Gynaliadwy, ond nid yw'n cymryd lle diffiniadau a wnaed yn y gorffennol sy'n cael eu defnyddio mewn deddfwriaeth arall.

### Beth sy'n cael ei gynnwys yn y diffiniad o amaethyddiaeth a gweithgareddau ategol:

**Amaethyddiaeth**

- Garddwriaeth
- Cnydau âr
- Ffermio gwartheg godro
- Cadw a bridio da byw
- Defnyddio tir fel tir pori
- Defnyddio tir fel coetir fferm neu at ddiben amaeth-goedwigaeth
- Ffermio mewn amgylchedd dan reolaeth (fel cynhyrchu mewn tai gwydr ar raddfa fawr)
- Tyfu planhigion at eu gwerthu neu at werthu rhan o'r planhigyn (fel cynhyrchu hadau)
- Cadw'r tir mewn cyflwr sy'n addas ar gyfer un o'r gweithgareddau a restrir yma

**Gweithgaredd ategol**

- Gweithredu ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth i greu a rheoli cynefinoedd neu at ddibenion eraill sy'n ymwneud â chadwraeth natur.
- Gweithredu ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth i liniaru'r newid yn yr hinsawdd neu i addasu iddo.
- Gwerthu, marchnata, paratoi, pacio, prosesu neu ddosbarthu cynnyrch sy'n deillio o amaethyddiaeth.
- Gweithredu ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth i gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau.

## Pŵer i ddarparu cymorth

Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cymorth ar gyfer neu mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth yng Nghymru a gweithgareddau ategol sy'n digwydd yng Nghymru. Bydd y pŵer hwn yn allweddol o ran cyfrannu at Reoli Tir yn Gynaliadwy.

**Gall y cymorth hwn fod ar ffurf arian neu fel arall a gall gynnwys cymorth ar gyfer neu mewn perthynas ag unrhyw rai o'r dibenion canlynol;**

- Annog cynhyrchu bwyd mewn modd sy'n amgylcheddol gynaliadwy
- Helpu cymunedau gwledig i ffynnu a chryfhau'r cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a'u cymunedau
- Gwneud busnesau amaethyddol yn fwy gwydn
- Cynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni
- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr
- Dal a storio mwy o garbon
- Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau
- Gwarchod a gwella tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol
- Gwella ansawdd aer
- Gwella ansawdd dŵr
- Cynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol a'u hymgysylltiad â nhw
- Cynnal a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid
- Lleihau peryglon llifogydd a sychder
- Defnyddio adnoddau'n effeithiol
- Annog busnesau amaethyddol i reoli ynni'n effeithiol (gan gynnwys trwy fabwysiadu arferion sy'n defnyddio ynni'n effeithiol ac yn arbed ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar eu tir)

## Y Fframwaith Monitro ac Adrodd

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i weithredu yn y ffordd y maent yn ei hystyried sy'n cyfrannu orau at gyflawni amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy ac mae'n bwysig bod Gweinidogion Cymru'n gallu dangos i bobl Cymru y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni'r pedwar amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Mae'r Ddeddf yn rhoi camau yn eu lle i sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n gwneud hyn ac yn ymgysylltu'n briodol â'r Senedd, grwpiau buddiant ac eraill, gan gynnwys y cyhoedd, a bod y rheini'n craffu arnynt. Mae'r darpariaethau hyn yn bwysig hefyd i asesu effeithiolrwydd y polisi ac i greu sylfaen o dystiolaeth bwysig sy'n tyfu ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol (er enghraifft, trwy wella gwybodaeth, arloesi a nodi tueddiadau):

**Cynllun Cymorth Aml-flwyddyn:** Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi'r cynllun hwn i roi gwybodaeth i'r diwydiant ynghylch sut y bydd Gweinidogion Cymru'n defnyddio'r pŵer i roi cymorth o dan adran 8 yn ystod y cyfnod adrodd yn y ffordd sy'n cyfrannu orau at gyflawni amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Rhaid i'r cynllun gwmpasu cyfnod o bum mlynedd, gyda'r cyfnod cyntaf yn dechrau ar 1 Ionawr 2025.

**Adroddiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy:** Cyhoeddir yr adroddiad bob 5 mlynedd. Disgwylir cyhoeddi'r cyntaf yn 2026. Bydd yr adroddiad yn disgrifio'r gwaith cronnus sydd wedi'i wneud i gyflawni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy a'r cynnydd sydd wedi'i wneud mewn cyfnod adrodd penodol. Bydd gofyn i'r adroddiad nodi'r gwaith sydd wedi'i wneud mewn cysylltiad â dangosyddion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (a gyhoeddir o dan adran 4) ac esbonio sut mae'r gwaith hwnnw wedi cyfrannu at amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Rhaid i'r adroddiad nodi hefyd a lwyddwyd i gyflawni targed Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn y cyfnod adrodd. Os nad yw targed wedi'i gyflawni, rhaid i'r adroddiad esbonio pam a nodi'r camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu am eu cymryd i gyflawni'r targed neu i greu targed newydd.

**Adroddiad Blynyddol:** cyhoeddir adroddiad blynyddol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Disgwylir cyhoeddi'r cyntaf ddim hwyrach na 12 mis ar ôl y cyfnod hwnnw, ac yna bob blwyddyn ariannol wedi hynny. Bydd yn cynnwys gwybodaeth am y cymorth ariannol ac anariannol sydd wedi'i roi o dan bŵer y Ddeddf i roi cymorth.

**Adroddiad Effaith:** cyhoeddir hwn bob 5 mlynedd a'r cyntaf o fewn 12 mis i'r cyfnod adrodd. Bydd yr adroddiad yn cloriannu'r cymorth a roddir o dan y Ddeddf, gan ddisgrifio pwrpas y cymorth ac effaith ac effeithiolrwydd y cymorth hwnnw o ran cyflawni'r dibenion y cafodd ei roi i'w cyflawni a'r graddau y mae wedi cyfrannu at gyflawni amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy.



## Dangosyddion a Thargedau Rheoli Tir yn Gynaliadwy

I roi gwybod i ni a ydyn ni'n symud at gyflawni amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy ac i ba raddau rydym yn gwneud hynny, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad o ddangosyddion i fesur cynnydd at gyflawni amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy a thargedau ar gyfer y dangosyddion hynny.

### Dangosyddion

- Rhaid gosod o leiaf un dangosydd ar gyfer pob amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy.
- Gellir pennu rhagor o ddangosyddion, hynny ar gyfer un amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy neu fwy.
- Gellid mynegi'r dangosydd fel gwerth neu nodwedd ansoddol neu feintiol y gellir ei fesur yn erbyn canlyniad penodol.
- Gall dangosydd ymwneud â Chymru gyfan neu â rhan ohoni.

### Targedau

- Rhaid pennu o leiaf un targed penodol sy'n ymwneud ag o leiaf un dangosydd penodol ar gyfer pob amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy.
- Gellir pennu rhagor o dargedau, hynny ar gyfer un dangosydd neu fwy ag un.
- Gall targed ymwneud â Chymru gyfan neu â rhan ohoni.
- Gall targed gwmpasu unrhyw gyfnod fel y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda.

## Beth i'w wneud wrth baratoi neu ddiwygio dangosyddion a thargedau

Wrth ddewis dangosyddion a thargedau, bydd yn bwysig i Weinidogion Cymru ddeall yr heriau y byddwn yn eu hwynebu a meddu ar ddarlun clir o ble rydym yn mynd fel bod y dangosyddion a'r targedau'n rhai uchelgeisiol ac yn ymarferol. I'r perwyl hwn, rhaid i Weinidogion roi sylw i:

- Unrhyw ddangosyddion cenedlaethol a gyhoeddwyd o dan adran 10 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd yn eu barn nhw yn berthnasol.
- Yr adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol a gyhoeddwyd o dan adran 8 o Ddeddf yr Amglychedd (Cymru) 2016 i'r graddau ei fod yn ymwneud ag amaethyddiaeth, gweithgareddau eraill ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth neu weithgareddau ategol.
- Polisi diweddaraf Cyfoeth Adnoddau Cymru a gyhoeddwyd o dan adran 9 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i'r graddau ei fod yn ymwneud ag amaethyddiaeth, gweithgareddau eraill ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth neu weithgareddau ategol.
- Yr Adroddiad Effaith diweddaraf a gyhoeddwyd o dan adran 14 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru).
- Unrhyw faterion eraill sydd yn eu barn nhw yn briodol, (gan gynnwys unrhyw ystadegau a gyhoeddwyd ganddynt am gynnyrch amaethyddol neu incwm busnesau amaethyddol).

Wrth benderfynu ar y dangosyddion a'r targedau, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac unrhyw berson arall sydd yn eu barn nhw yn briodol.

www.llyw.cymru

Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (legislation.gov.uk/asc/2023/4/enacted/welsh)

E-bost: RheoliTirYnGynaliadwy@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru WG48312 ISBN digidol 978-1-83504-924-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg